
PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 6 CHWEFROR 2020

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Elfed Roberts (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Gethin Glyn Williams (Is-gadeirydd)

Y CYNGHORWYR: Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Angela Russell, Mike Stevens, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

SWYDDOGION: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitemau 5 a 6 ar y rhaglen – Y Cyngorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd).

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen – Y Cyngorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Cara Owen (Rheolwr Cynllunio – Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Simon Glyn a Linda Morgan.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2019, fel rhai cywir.

5. GORFODAETH STRYD

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar yr isod:-

- Defnydd camerâu gan staff morwrol;
- Effaith newidiadau trefniadau ailgylchu;
- Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth;
- Ail ystyried lefelau staffio presennol yr uned gorfodaeth stryd;
- Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi:-

- Y bu'r newidiadau i'r trefniadau ailgylchu yn Nwyfor yn bositif iawn, gyda lleihad yn y casgliadau a fethwyd. Bu'r newid yn fwy problemus yn Arfon oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys tywydd gwael, cerbydau'n torri a llawer mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod cyfnod y Nadolig. Dymunai ymddiheuro i'r cymunedau hynny oedd wedi cael eu heffeithio a nododd ei bod yn ffyddiog bod y gwasanaeth yn llawer gwell erbyn hyn. O ganlyniad i'r anawsterau yn Arfon, gohiriwyd cyflwyno'r newidiadau ym Meirionnydd tan ar ôl y Pasg.
- O ran cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth, roedd yn ymddangos bod pob sir yn cyfarch y gwaith mewn ffordd wahanol, oedd yn rhoi mwy o ofyn ar y Cyngor hwn i ddatblygu ei ffordd ei hun o weithredu.
- Iddi gael y cyfle'n ddiweddar i fynd i weld y system teledu cylch cyfyng newydd. Nododd fod y system yn arbennig o dda o ran ansawdd, a bod lle i ddefnyddio'r math hwn o ddarpariaeth lawer mwy i'r dyfodol. Ychwanegodd y gofynnwyd i'r gweithwyr oedd yn rhedeg y system ddod i'r fforymau ardal i esbonio mwy am y ddarpariaeth.
- Ei bod yn hynod bwysig iddi fod cymunedau'r sir yn edrych yn lan ac yn daclus ac yn lle braf i fyw. Roedd tri rhan i hynny, sef sicrhau bod y trefniadau casglu'n dda, bod y Cyngor yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a chymunedau i uchafu edrychiad yr ardal, a hefyd yr elfen gorfodaeth.

Ymhelaethodd y swyddogion ar gynnwys yr adroddiad ac yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd bod deunyddiau yn dal i ddisgyn allan o'r loriau ailgylchu, gan eu bod yn cael eu gyrru i ffwrdd gyda'r drysau'n dal yn agored. Derbynnid bod hyn yn anochel mewn ardaloedd trefol gan nad oedd yn ymarferol cau'r drysau rhwng bob eiddo, ond dylid atgoffa'r gyrwyr i gau'r drysau mewn ardaloedd gwledig, lle mae tai ar wasgar.
- Mynegwyd bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth casglu newydd yn Nwyfor a nodwyd bod y sefyllfa wedi tacluso'n arw yn dilyn y newidiadau yma.
- Nodwyd bod baw ci yn dal yn broblem gynhennus ac awgrymwyd mai'r unig ffordd o ymdrin â hyn oedd drwy osod camerau dros dro ar rai o'r llwybrau lle mae'r broblem waethaf.
- Nodwyd y dylid gwagio biniau stryd ddwywaith y dydd yn ystod gwyliau ysgol.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod arwyddion ffyrdd y sir yn fudr.
- Awgrymwyd y dylid gweithio gyda'r Adran Forwrol i osod arwyddion gorfodaeth ar y traethau, gan y byddai hyn yn cael effaith bositif ar yr amgylchedd, ynghyd â chynllun parchu ardal i gyd-fynd gyda'r elfen gorfodaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Nad system ar y loriau oedd y system teledu cylch cyfyng newydd, eithr system ar y stryd. Roedd y system yn llawer mwy digidol na'r hen drefn, gyda mwy o gamerâu, a'r rheini o well ansawdd, a olygai nad oedd angen gweithlu yn yr uned teledu cylch cyfyng bellach. Cadarnhawyd hefyd bod y gweithlu yma wedi gadael y Cyngor erbyn hyn.
- Bod colli deunyddiau o gerbydau wedi bod yn gŵyn barhaol. Cytunid y dylid cau'r drysau wrth weithio allan yn y wlad a byddai'r neges hon yn cael ei chyfleu i'r criwiau.

- Gan nad oedd y trafodaethau diweddar ynglŷn â chydweithio wedi arwain at ddatrysiaid rhanbarthol, bwriedid edrych ar hyn fel adran a gwasanaeth a chynnal adolygiad Ffordd Gwynedd o ran y tîm a sut roedd y gwasanaeth yn cael ei gyflawni, gyda'r nod o lunio strwythur newydd fyddai'n arwain at wella'r elfen o ollwng sbwriel a baw ci. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol eisoes a gobeithid cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ym Mawrth gyda'r nod o gyflwyno'r cynllun ar y ddaear yn fuan iawn ar ôl hynny.
- O ran y broblem baw ci, bod y defnydd o gamerâu symudol, o bosib, yn rhywbeth y dylid edrych arno, er mwyn gallu bod yn fwy cadarn gyda gorfodaeth. Hefyd, roedd cynlluniau y tu allan i'r Cyngor i geisio newid ymddygiad. Byddai angen adolygu'r gorchmynion cŵn hefyd ac efallai y gellid edrych ar y cyfan fel pecyn.
- Bod yr adran yn gefnogol iawn i edrych ar ddefnydd o gerbydau trydan / hydrogen. Bwriedid ceisio adnabod pa fath o gerbydau fyddai'r Cyngor eu hangen, o ystyried natur wledig y sir. 'Roedd trydan yn sicr yn opsiwn o ran y fflyd fechan, ond roedd hynny'n fwy anodd o ran y cerbydau casglu sbwriel. Roedd yr adran yn cadw golwg ar y gwaith o dreialu cerbydau hydrogen oedd yn digwydd yn yr Alban ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd y cyflwynwyd bid am grant o'r Gronfa Economi Gylchol.
- Bod gan yr adran drefn o lanhau strydoedd oedd yn cynnwys gwagio biniau stryd. Os oedd y glanhawyr stryd yn yr ardal, byddent yn gwagio'r biniau, hyd yn oed os ond yn chwarter neu hanner llawn. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu pe byddent yn gweld enghreifftiau lle nad oedd hyn yn digwydd. Nodwyd ymhellach fod bwriad i adolygu'r trefniadau glanhau stryd ar draws y sir. Cyhoeddwyd dogfen newydd gan Lywodraeth Cymru oedd yn manylu ar sut y dylid mynd ati i lanhau strydoedd, ac efallai bod hyn yn gyfle i edrych ar sut roedd y gwasanaeth yn ymateb mewn rhai llefydd, megis Llanberis.
- Y darparwyd chwech o gamerâu ar gyfer y Tîm Morwrol ar gost o £550 yr un, a chan fod gan y staff hynny bwerau gorfodaeth i gosbi pobl am daflu ysbwriel neu ganiatáu i'w cŵn faeddu, bod cyfleoedd iddynt gynorthwyo gyda'r gwaith bwrdeistrefol.
- Bod y camerâu cylch cyfyng yn weithredol yng Nghaernarfon, Bangor, Porthmadog a Phwllheli, ond y derbynnid ceisiadau o ardaloedd eraill hefyd. Roedd yr heddlu a'r cynghorau tref / dinas perthnasol yn cyfrannu tuag at gost rhedeg y system.
- Y cytunid bod angen adolygu'r trefniadau gwagio biniau stryd ar wahanol adegau o'r flwyddyn, e.e. ar ŵyl banc ac yn ystod yr haf, yn arbennig felly yn yr ardaloedd hynny sy'n cael llawer o bwysau yn y cyfnodau yma.
- Bod cyfrifoldeb ar y gwasanaeth i lanhau arwyddion ffyrdd ac y byddent yn mynd i'r afael â hyn.
- Y byddai'r Adran yn trafod ymhellach gyda'r Tîm Morwrol o ran cyfarch materion yn ymwneud â gorfodaeth ar draethau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

6. YMATEB I ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU GORFODAETH GWASTRAFF

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd yn y categorïau canlynol:-

- Gweithredu'n syth;
- Cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau / partneriaid eraill er gweithredu'r argymhellion.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi:-

- Y dymunai ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaethau Stryd am ei holl waith yn y maes hwn.

- Bod y gwaith yn amlygu'r ffaith bod sicrhau trefniadau casglu da, cydweithio gyda chymunedau, a gorfodaeth, yn uchafu edrychiad y sir er budd pawb.
- O ganlyniad i gyflwyno'r drefn gasglu newydd yn Nwyfor ac Arfon, gohiriwyd dod â'r pwerau gorfodi i mewn oherwydd pwysigrwydd darparu gwasanaeth cywir cyn edrych ar orfodi.
- Bod yr adroddiad yn rhoi cryn sylw i Fangor. Cychwynnwyd cydweithio gyda gwahanol bartneriaid, a sefydlwyd Grŵp Ffocws ar Fangor, oedd yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol, gyda'r heddlu'n rhan o'r cyfarfod cyntaf hefyd. Roedd yr Adran yn rhan o Grŵp Delwedd Bangor hefyd, sef grŵp ehangach oedd yn edrych ar edrychiad y ddinas.
- Y bwriedid treialu sticeri 'QR codes' yn yr ardaloedd myfyrwyr ym Mangor Uchaf, ac o bosib' Hiracl hefyd, a gobeithid y byddai yna ddiweddariad o ran amserlen hynny yn fuan.
- Bod llawer o waith y gellid ei wneud o ran hyrwyddo'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig ac o ran newid ymddygiad.
- Bod angen i'r Cyngor gyrraedd targed ailgylchu o 64% erbyn Mawrth eleni, gyda'r targed yn codi i 70% ar ôl hynny.
- Ei bod yn awyddus i ddatblygu rhaglen ymgysylltu a chyfathrebu gyda'r Uned Gyfathrebu fel bod modd mynd allan i'r cymunedau i siarad gyda phobl a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion gwastraff.

Ymhelaethodd y swyddogion ar gynnwys yr adroddiad ac yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Croesawyd argymhellion yr ymchwiliad craffu. Nodwyd bod y swyddogion wedi cymryd sylw o farn aelodau'r ymchwiliad a chredid y byddai gweithredu'r argymhellion hynny yn gwneud gwahaniaeth i'r gwasanaeth ac i'r amgylchedd ar gyfer y trigolion.
- Nodwyd bod tueddiad i wyro tuag at Fangor, ond yno roedd y problemau dwysaf oherwydd y boblogaeth myfyrwyr a daearyddiaeth y ddinas.
- Pwysleisiwyd bod angen i Wynedd fod yn bencampwyr ailgylchu. Roedd hyn yn mynd i gymryd mwy o fuddsoddiad, ond nid oedd dewis arall. Roedd y Cyngor yn gwneud gwaith da iawn yn y maes, ond roedd angen gwneud ychydig mwy eto.
- Mynegwyd pryder y byddai dirywio pobl yn arwain at gynnydd mewn tipio slei bach, yn enwedig yn y wardiau cefn gwlad.
- Canmolwyd y gwaith da yn y ganolfan ailgylchu yn Ffridd Rasys a gofynnwyd i'r pennaeth gyfleu'r neges honno i'r gweithwyr.
- Diolchwyd i'r adran gwasanaeth brys sy'n delio â thipio slei bach a biniau stryd sy'n orlawn.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Mai diben cyflwyno dirwyon am waredu ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir oedd targedu lle mae problemau, yn hytrach na cheisio dal pobl allan. Lluniwyd polisi oedd yn annog cyswllt yn y lle cyntaf, gyda swyddog yn ymweld â thŷ lle'r oedd problem i weld oedd modd cynnig gwasanaeth ychwanegol. 'Roedd 3-4 cam pellach yn y polisi a'r unig bobl fyddai'n cael ei dirwyo fyddai'r sawl fyddai'n gallu cydymffurfio, ond yn gwrthod gwneud hynny. Byddai'n rhaid edrych ar leoliadau yn unigol gan bwysu a mesur o ran yr elfen risg a'r ddelwedd roedd y bin yn roi o'i adael ar y stryd. Derbynnid nad oedd opsiwn mewn llawer o lefydd ond rhoi'r biniau ar y stryd a byddai'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r trigolion yn yr ardaloedd anodd o ran ceisio datrysiaid.

- Y cydnabyddid bod angen gwneud mwy i hybu'r gwasanaeth casgliadau clinigol. Efallai bod cyfle i gynnig y gwasanaeth ail-ddefnyddio clytiau i rieni wrth iddynt gofrestru genedigaeth eu plentyn, a gellid tynnu sylw gofawr at y gwasanaeth yn ogystal.
- Y byddai'r Cyngor yn cael dirwy eithaf sylweddol pe bai'n methu cyrraedd y targed ailgylchu presennol o 64% ac roedd yna gryn dipyn o waith i'w wneud i gyrraedd y targed o 70% erbyn Mawrth 2025.
- Y byddai'n fuddiol i unrhyw un ddod i Gaergylchu, neu un o'r canolfannau ailgylchu eraill, i weld y prosesau sy'n digwydd yno.
- Bod sawl cymuned yng Ngwynedd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn gymuned ddi-blastig, a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r gwasanaeth am gymorth a chefnogaeth petai cymuned o fewn eu wardiau yn dymuno mynd symud i'r cyfeiriad hwnnw.
- Bod yr adran yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff masnachol i fusnesau. Credid bod 2221 o fusnesau'r sir yn derbyn gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol ac ailgylchu gan y Cyngor ar hyn o bryd. Roedd y gwasanaeth yn ceisio gwella'r ganran ailgylchu, ac roedd gwaith i'w wneud o ran, e.e. rhoi cymorth i feysydd carafanau i symud yr agenda yn ei flaen. Roedd perfformiad ailgylchu'r gwasanaeth masnachol yn 48%, felly ychydig yn is na'r elfen ddomestig. Roedd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wella a rhoi mwy o bwyslais ar y sector fusnes yn gyffredinol, ac roedd hynny'n rhywbeth i edrych arno'r flwyddyn nesaf.
- Nad oedd y defnydd o ganolfan ailgylchu Blaenau Ffestiniog gan drigolion o Gonwy yn cael ei fonitro, ond efallai bod hyn yn rhywbeth i edrych arno, ynghyd â'r defnydd o Ganolfan Ailgylchu Bangor gan drigolion o Gonwy a Môn. Nodwyd hefyd y gallai'r ffaith bod Conwy yn codi tâl am waredu eitemau yn eu canolfannau ailgylchu gael effaith ar y defnydd o'r safleoedd ym Mlaenau Ffestiniog a Bangor.
- Na ragwelid y byddai cyflwyno dirwyon yn arwain at gynnydd mewn tipio slei bach, ond bod hyn yn rhywbeth yn sicr i'w gadw mewn cof.
- Fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau glanhau strydoedd, byddai'n rhaid buddsoddi mewn biniau amblwrpas, fyddai'n caniatáu gwahanu papur, caniau a phlastig, fel bod modd ailgylchu'r deunyddiau hynny.
- Y gallai gosod biniau stryd mewn cilfannau fod yn broblemus gan fod hynny'n annog pobl i waredu'n anghyfreithlon o gwmpas y biniau. Y neges fyddai i bobl fynd a'u sbwriel adre gyda hwy a'i roi yn y bin cywir, ond roedd yn rhywbeth i'w adolygu wrth symud ymlaen gyda'r agenda glanhau strydoedd.
- Nad oedd ail-gyflwyno'r cynllun sgipiau cymunedol yn opsiwn oherwydd rheoliadau Cyfoeth Naturiol Cymru o ran trwyddedu ayb, ac er bod y sgipiau wedi bod yn adnodd defnyddiol yn y gorffennol, bu cryn gamddefnydd ohonynt.
- Bod y gwasanaeth casgliadau swmpus yn gyfle i drigolion sy'n methu cyrraedd y canolfannau ailgylchu gael gwared o eitemau. Roedd y Cyngor yn ei gynnig fel gwasanaeth unwaith bob bythefnos a chaniateid casgliad o hyd at 5 eitem ar y tro am un ffi o £25. Derbynnid dros 4000 o geisiadau mewn blwyddyn, ac roedd yr eitemau swmpus yn cael eu hailgylchu, yn wahanol i'r hyn fyddai'n digwydd i'r deunydd o'r sgipiau cymunedol, fyddai'n mynd i dirlenwi. Eglurwyd bod modd i bobl drefnu casgliad swmpus drwy app Gwynedd a nodwyd y bwriedid rhoi mwy o hysbysrwydd i'r gwasanaeth sydd ar gael.
- Yn ddibynnol ar lwyddiant y treial gyda'r sticeri 'QR codes', gellid edrych ar osod y sticeri ar finiau'n gyffredinol, gan hefyd drafod y math hwn o gynllun gyda siopau prydau parod, ac ati.
- Y cynhaliwyd trafodaethau gyda busnesau ym Mangor mewn ymgais i'w hannog i ddefnyddio llai o bolystyren ar gyfer pecynnu bwydydd, a bod rôl hefyd o fewn y gymuned i fod yn gweithio hefo'r busnesau yn hyn o beth.

PENDERFYNWYD

(a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.

(b) Gofyn i'r gwasanaeth drefnu i aelodau'r pwyllgor ymweld â Chaerylchu i ddysgu mwy am y prosesau sy'n digwydd yno.

7. CYNLLUNIO A'R CYNLLUN DIRPRWYO (ADRODDIAD MONITRO AR WEITHREDIAD Y CYNLLUN DIRPRWYO NEWYDD)

Cyflwynwyd adroddiad monitro'r Aelod Cabinet Amgylchedd ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd ar gyfer ceisiadau cynllunio.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi bod hwn yn fater oedd wedi bod yn fyw ac yn newid, a bod yr adroddiad yn rhoi darlun i'r aelodau o'r hyn oedd wedi digwydd, beth oedd wedi newid a beth oedd y drefn.

Ymhelaethodd y swyddogion ar gynnwys yr adroddiad ac yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r trefniadau ymgynghori gyda'r AHNE ar y sail y byddai'n fwy democrataidd petai'r sylwadau ar geisiadau cynllunio yn dod gan Gyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn, yn hytrach na gan y Swyddog AHNE. Nodwyd ymhellach y bu gwrthdaro rhwng y swyddogion ac aelodau'r cyd-bwyllgor ynglŷn â sawl cais cynhennus.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r niferoedd ceisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu drwy'r drefn ddirprwyedig, o gymharu â'r nifer sy'n dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio, e.e. yn Hydref 2019, penderfynwyd ar 107 o geisiadau gan y swyddogion o gymharu â 3 gan y pwyllgor. Deallid bod gan yr aelod lleol yr hawl i alw unrhyw gais i mewn i'r pwyllgor, ond yn aml roedd yr aelod yn methu'r cais ac felly'n colli'r cyfle i'w alw i mewn. Nodwyd hefyd, oherwydd daearyddiaeth Gwynedd, bod y math o geisiadau a dderbynnid yma yn wahanol i'r hyn a dderbynnid yn yr ardaloedd poblog megis Caerdydd, Abertawe a chymoedd y De. Bu sôn hefyd bod cyflwyno llai o geisiadau i bwyllgor yn lleihau llwyth gwaith yr aelodau, ond roedd yr aelodau'n cael eu talu am wneud y gwaith hynny.
- Nodwyd mai'r hyn oedd yn bwysig oedd bod y ceisiadau sy'n dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn rhai sy'n werth eu trafod, a chroesawyd y lleihad yn nifer y cyfarfodydd ac yn nifer y ceisiadau a oedd yn dod gerbron y pwyllgor.
- Nodwyd ei bod yn fwy anodd erbyn hyn i'r aelodau weld y rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio oherwydd newidiadau TG, a phwysleisiwyd bod rhaid i'r aelodau fod yn ymwybodol o'r ceisiadau sydd i law er mwyn gallu bod yn rhagweithiol o ran cyfleu'r teimlad lleol ar y ceisiadau hynny.
- Nodwyd y dylai'r aelodau hefyd dderbyn rhestr o'r ceisiadau a benderfynwyd drwy'r drefn ddirprwyo.
- Nodwyd bod Môn wedi gwneud elw o 5.9% y llynedd ar ffioedd cynllunio (sef gwariant net o £767,000 ac incwm o £812,000) ond bod Gwynedd wedi gwneud colled o 51.9% (sef gwariant net o £1,097,000 ac incwm o £528,000).
- Pwysleisiwyd y dylai unrhyw gais i newid amod(au) ar gais cynllunio a ganiatawyd gan y Pwyllgor Cynllunio gael ei gyfeirio'n ôl i'r pwyllgor yn otomatig, yn enwedig os yw'r newid yn rhywbeth allai fod yn gynhennus.
- Mynegwyd pryder ynglŷn ag anallu'r cyhoedd ac aelodau i gysylltu â swyddogion cynllunio dros y ffôn.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran yr AHNE, bod yna gytundeb lefel gwasanaeth yn ei le. Roedd y Swyddog AHNE yn broffesiynol ac yn annibynnol o'r gwasanaeth cynllunio, fel pob

ymgyngorai arall. Roedd dyletswydd ar y swyddogion cynllunio i asesu'r hyn y gofynnid iddynt ei wneud yn ôl y ddeddf, ac felly roeddent yn gwneud hynny yn nghyd-destun y sylwadau a dderbynnid gan y Swyddog AHNE. Nid oedd dyletswydd statudol i ymgynghori gyda'r AHNE, ond gwneid hynny oherwydd pwysigrwydd y berthynas waith rhwng y ddwy uned. Ni chredid bod rhaid ymgynghori gyda'r Cyd-bwyllgor, er bod croeso iddynt gyflwyno sylwadau ar geisiadau, a chredid bod y dyletswydd i warchod yr AHNE yn cael ei wneud gan y swyddogion cynllunio a'r Swyddog AHNE.

- Bod y cynllun dirprwyo presennol yn deillio o waith ymchwiliad craffu a wnaed ar ran y pwyllgor hwn, a'i fod hefyd yn deillio o argymhelliad y pwyllgor hwn i'r Aelod Cabinet addasu'r cynllun dirprwyo. Ar y pryd, cytunwyd bod gormod o lawer o geisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, ac effaith newid y cynllun dirprwyo oedd sicrhau mai ond y ceisiadau oedd wir angen penderfyniad pwyllgor oedd yn cael eu cyflwyno. Roedd perthynas pob aelod gyda'r Gwasanaeth Cynllunio yn hynod bwysig o ran ceisiadau cynllunio, ac roedd gan bob un ohonynt yr hawl i gyfeirio cais cynllunio i bwyllgor, beth bynnag oedd natur y cais. Roedd y newid wedi dod â'r Cyngor hwn i sefyllfa debyg i lawer o awdurdodau eraill, gyda thua 6% o'r ceisiadau yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio bob blwyddyn. Nodwyd ymhellach ei bod yn beryg' edrych ar ystadegau cyfnod byr o gyfarfodydd pwyllgor i ystyried pa benderfyniadau oedd yn cael eu gwneud, a'i bod yn bwysig edrych ar y ffigurau dros gyfnod o flwyddyn. Fel enghraifft o hyn, nodwyd o bosib' nad oedd yr union benderfyniadau i wrthod neu i ganiatáu'r 3 cais a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn Hydref y llynedd wedi mynd allan am ddau fis arall am wahanol resymau. Nodwyd ymhellach y cydnabyddid bod datblygiad mawr yng Ngwynedd yn wahanol iawn i ddatblygiad mawr yng Nghaerdydd, er enghraifft, a dyna pam y bu i'r ymchwiliad craffu edrych ar esiamplau o gynlluniau dirprwyo mewn ardaloedd mwy tebyg i Wynedd. Gan fod yr ystadegau'n dangos bod oddeutu 94% o geisiadau'r awdurdodau hynny yn cael eu penderfynu gan y drefn ddirprwyo, roedd y newidiadau yn sgil y cynllun dirprwyo newydd yng Ngwynedd yn mynd â'r Cyngor hwn i'r un math o le ag awdurdodau cynllunio oedd yn eithaf tebyg i Wynedd o ran cymeriad. Nodwyd hefyd y derbynnid y sylw o ran llwyth gwaith yr aelodau, ond bod nifer uchel o geisiadau gweddol fach eu natur wedi bod yn dylanwadu ar y nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a hyd y cyfarfodydd hynny.
- Bod y Gwasanaeth Cynllunio wedi bod trwy gyfnod hynod o heriol yn trosglwyddo i system TG newydd tra bo'r gwaith dydd i ddydd yn dal i orfod mynd yn ei flaen. Cydnabyddid bod yna ambell i broblem wedi bod, ond roedd y gwasanaeth yn hyderus y byddai'r system newydd yn dod â budd i'r trigolion, yr aelodau a'r gwasanaeth yn yr hir dymor. Cadarnhawyd bod y rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio yn dal ar gael i'r aelodau, ac nad oedd bwriad i newid hynny. O'r wythnos ganlynol ymlaen, bwriedid gyrru linc at yr aelodau i'w hatgoffa bod rhestr newydd o geisiadau wedi'i chyhoeddi, a nodwyd hefyd y byddai'r gwasanaeth yn trefnu hyfforddiant ar gyfer unrhyw un oedd yn cael trafferth dod o hyd i'r rhestrau.
- Bod cyfanswm y ffioedd cynllunio am y flwyddyn yn llwyr ddibynnol ar y mathau o geisiadau a dderbynnid, oherwydd y gallai rhai mathau o geisiadau, e.e. ceisiadau am archfarchnadoedd a datblygiadau tai o faint sylweddol, ddod â ffioedd llawer uwch i mewn nag eraill. Gan hynny, nid oedd cymharu ffioedd gwahanol awdurdodau yn gymhariaeth o berfformiad un yn erbyn y llall.
- Y credid mai'r ffordd orau ymlaen gyda cheisiadau i newid amod(au) ar gais cynllunio a ganiatawyd gan y pwyllgor fyddai delio â phob achos wrth iddo godi. Roedd y rhestr wythnosol a'r ymgynghori yn dod gerbron yr aelodau ac yn datgan yn glir bod yna newid amod. Hefyd, gallai'r hyn a ystyrid yn gynhennus gan y swyddogion fod yn wahanol i'r hyn a ystyrid yn gynhennus yn ardal leol y cais, ac felly, roedd y swyddogion yn ddibynnol iawn ar yr aelod lleol i fod yn baromedr o'r teimlad yn lleol. Hefyd, roedd cyfrifoldeb ar yr aelod lleol i gyd-drafod y ffordd ymlaen gyda'r swyddog.

- Y derbynnid y sylw ynglŷn ag anhawster cysylltu â swyddogion cynllunio, a bod trafodaethau ar y gweill i weld beth ellid ei wneud i wella'r drefn.
- Bod rhestr wythnosol o benderfyniadau dirprwyedig ar gael ar y wefan eisoes.
- Bod y Swyddog AHNE ac ymgynghorwyr mewnol a statudol eraill yn rhoi barn broffesiynol o safbwynt eu gofynion technegol proffesiynol hwy eu hunain. Nid oeddent yn gwneud asesiad yn erbyn y polisiâu cynllunio, a rôl y swyddogion cynllunio oedd hynny. Gan hynny, nid oedd gwrthwynebiad i gais gan ymgynghorydd yn golygu ei fod yn wrthwynebiad ar sail cynllunio.

Nododd aelod na ymgynghorwyd ag ef ar gais cynllunio fel aelod lleol yn ardal y Parc Cenedlaethol. Nododd aelod o'r pwyllgor, oedd hefyd yn aelod o'r Awdurdod Parc, y byddai'n codi'r mater ar ei ran.

Nododd aelod ei fod yn cael trafferth dod o hyd i union leoliad yr AHNE ar fap manwl. Nododd na ymgynghorwyd â'r Swyddog AHNE ar gais cynllunio diweddar ym Mwlch Bridin, oedd yn ymylu ar yr AHNE, a'i fod wedi'i siomi nad oedd sylw gan y swyddog ar gais oedd yn amharu ar y rhan helaethaf o Fae Porthdinllaen.

PENDERFYNWYD argymell:

- (a) Parhau i weithredu'r drefn ymgynghori statudol a defnyddio y templedi llythyrau newydd er mwyn ymgynghori ac i fonitro'r sefyllfa gyda'r swyddfa gefn newydd ac adolygu fel bo angen.**
- (b) Parhau i ymgynghori gyda'r Uned AHNE fel sydd yn digwydd yn bresennol.**
- (c) Parhau gyda darparu rhaglen o hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd.**
- (ch) Lleihau nifer y Pwyllgorau Cynllunio o 15 y flwyddyn i 12 y flwyddyn a monitro sut mae hyn yn gweithredu dros gyfnod o flwyddyn ac i fod yn weithredol yn y flwyddyn ariannol nesaf.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

CADEIRYDD